

Rhif: WG23315



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Crynodeb Gweithredol

Gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rheoliadau a Chod ymarfer mewn perthynas â
Rhan 11 (Swyddogaethau Cyffredinol) o Ddeddf
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Gweinidogion wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith hwn fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Y broses o wneud codau a rheoliadau o dan y Ddeddf

Mae'r rheoliadau, y codau a'r canllawiau statudol wedi cael eu datblygu drwy broses ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac maent bellach yn cael eu cyflwyno i randdeiliaid ledled Cymru er mwyn cael eu cyfraniad.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau a'u gosod yn cael ei wneud o dan y Ddeddf a'i gynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Bydd y gyfres gyntaf ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos a fydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2014. Disgwylir y bydd ymgynghoriad yr ail gyfres yn cael ei gynnal rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2015. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ym mis Mai 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu gweithredu ar 6 Ebrill 2016.

Yr hyn y mae'r gyfres gyntaf o reoliadau a chodau ymarfer yn ei gwmpasu

Mae'r gyfres gyntaf yn ymdrin â darpariaethau craidd yn ymwneud â chymhwysra, asesu, cynllunio gofal a chymorth a thaliadau uniongyrchol yn Rhannau 2 i 4 o'r Ddeddf, ynghyd â darpariaethau yn Rhan 7, yn ymwneud â diogelu, a rhan 11 yn ymwneud â phreswylfa arferol ac anghydfodau cysylltiedig.

Cwmpas y cod ymarfer a'r rheoliadau mewn perthynas â Rhan 11 o'r Ddeddf

Oedolion a Phlant mewn carchar, llety cadw ieuencid neu lety mechniaeth

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion sydd mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth yng Nghymru; ac anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc sydd mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth yng Nghymru a Lloegr. Nid oes unrhyw reoliadau yn ymwneud ag oedolion a phlant mewn carchar, llety cadw ieuenctid na llety mechnïaeth. Felly mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r Cod Ymarfer ar Adrannau 185-188. Mae'r cod ymarfer yn ceisio pennu polisi ar ddiwallu anghenion 'gofal a chymorth' oedolion, plant a phobl ifanc tra eu bod yn y ddalfa, ac i'w paratoi ar gyfer y gofal a'r cymorth y gall fod eu hangen arnynt pan fyddant yn cael eu hailsefydlu yn y gymuned. Mae'r cod ymarfer yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol weithredu'r dyletswyddau o dan y Ddeddf.

O fis Ebrill 2016, bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am asesu a diwallu anghenion 'gofal a chymorth':

- Oedolion yn yr ystad ddiogel yng Nghymru;
- Plant o Gymru sydd yn yr ystad ddiogel boed hynny yng Nghymru neu Loegr; a
- rhai categorïau o blant Saesneg a osodir yn yr ystad ddiogel yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn cael ei drafftio ar sail gynhwysol felly mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn gwbl gymwys i'r holl oedolion a phlant yn yr ystad ddiogel ac eithrio pedair darpariaeth a gwmpesir yn adran 187. Effaith y darpariaethau hyn yw ni all carcharor:

- **fod yn ofalwr** os bydd yn cael ei gadw'n gaeth mewn carchar, mangre a gymeradwywyd neu lety cadw ieuenctid.
- **ni all dderbyn taliadau uniongyrchol** tuag at dalu am gostau ei anghenion gofal a chymorth os yw mewn carchar, mangre a gymeradwywyd neu lety mechnïaeth.
- **ni all fynegi ei fod yn ffafrio llety** pan fydd yn y ddalfa er y byddai'n gallu gwneud hynny pe bai'n mynegi ei fod yn ffafrio llety y byddai'n byw ynddo ar ôl cael ei ryddhau.
- **ni all gael ei eiddo wedi ei warchod** os ydyw mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth.

Preswylfa Arferol a datrys anghydfod

Mae lle yr ystyrir bod person yn preswyllo ynddo fel arfer yn hanfodol i benderfynu pa awdurdod lleol y bydd yn ofynnol iddo ddiwallu anghenion gofal chymorth y person. Mae 'preswylfa arferol' yn un o'r profion allweddol sy'n rhaid ei fodloni i sefydlu a yw'n ofynnol i awdurdod lleol ddiwallu anghenion cymwys person. Felly mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn sefydlu, ar yr adeg briodol, a yw person fel arfer yn byw yn ei ardal, ac a yw dyletswyddau o'r fath yn codi. I helpu awdurdodau i wneud hyn, mae'r cod ymarfer yn nodi gofynion a chanllawiau ar benderfynu preswylfa arferol mewn perthynas ag asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth cymwys, ar benderfynu preswylfa arferol pan fydd oedolyn yn symud i rai mathau o lety; ar anghydfodau y tu allan i ardal rhwng awdurdodau am breswylfa arferol person a hygludedd gofal a chymorth, ac ar y broses ar gyfer ceisio penderfyniad gan Weinidogion Cymru neu berson penodedig.

Mae rheoliadau o dan adran 194 o'r Ddeddf yn nodi'r mathau o lety y mae'r rheolau preswylfa arferol yn gymwys iddynt. Ar hyn o bryd dim ond llety cartref gofal sy'n cael ei gwmpasu. Mae'r rheoliadau drafft yn ymestyn hyn i leoliadau oedolion (a elwir fel arfer yn rhannu bywydau). Rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylai unrhyw fathau eraill o lety gael eu cynnwys.

Mae rheoliadau o dan adran 195 yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer penderfynu ar anghydfodau rhwng awdurdodau lleol ynghylch preswylfa arferol (adran 194), neu anghydfod rhwng awdurdod anfon ac awdurdod derbyn o dan adran 56 o'r Ddeddf (hygludedd gofal a chymorth).